

**Atgofion Chwarae  
Sir y Fflint  
1910 - 2014**



**Trosolwg adroddiad gwerthuso:  
canlyniadau a thueddiadau**

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r holl gyfranogwyr fu mor garedig, a gonest, wrth rannu eu hatgofion plentyndod â ni. Diolch i aelodau ehangach Rhwydwaith Chwarae Sir y Fflint am eu cymorth a'u cefnogaeth wrth ein helpu i gynnal ymgyrch Atgofion Chwarae Sir y Fflint.

*'Yr hawl i chwarae yw hawl cyntaf plentyn gan y gymuned. Chwarae yw hyfforddiant natur ar gyfer bywyd. Ni all unrhyw gymuned dresmasu ar yr hawl hwnnw heb wneud niwed parhaol i feddyliau a chyrff ei dinasyddion.'*

David Lloyd George (1925)



## Cynnwys

|                                                              |    |
|--------------------------------------------------------------|----|
| Cefndir                                                      | 4  |
| Trosolwg o'r ymgyrch Atgofion Chwarae                        | 6  |
| Adran 1: Dadansoddiad o ymatebion i'r cwestiynau             | 8  |
| Adran 2: Tueddiadau a nodwyd yn y data:                      | 19 |
| Ofn pobl ddieithr                                            | 19 |
| Diwylliant ofn risg                                          | 20 |
| Sefydliadolï plentynod                                       | 20 |
| Technoleg                                                    | 21 |
| Gofodau                                                      | 21 |
| Pwysau cymdeithasol a materoliaeth                           | 22 |
| Traffig                                                      | 23 |
| Sylwadau                                                     | 24 |
| Cynghorion ar gyfer cefnogi plant i chwarae allan yn hyderus | 25 |
| Amser, gofod a chaniatâd i chwarae                           | 27 |





## Cefndir

Roedd ymgyrch Atgofion Chwarae Sir y Fflint yn brosiect hanes cymdeithasol trylwyr i gasglu a chofnodi atgofion trigolion Sir y Fflint am eu profiadau chwarae hwy. Rhedodd y prosiect o fis Ionawr 2011 tan fis Gorffennaf 2014. Cafodd ei gynllunio a'i hwyluso gan staff Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Sir y Fflint, gyda chymorth nifer o fudiadau cymunedol sy'n ffurfio Rhwydwaith Chwarae ehangach Sir y Fflint.

Roedd y prosiect yma'n rhan o brosiect rhanbarthol mwy a gynhaliwyd gan yr elusen NEW Play, i gasglu tystiolaeth am y newidiadau yng ngallu plant i chwarae sydd wedi digwydd o fewn cof. Ceir cytundeb cyffredinol bod rhyddid plant i chwarae wedi ei gyfyngu mewn nifer o ffyrdd dros y degawdau diwethaf. Mae'r amser, yn ogystal â'r lle sydd ar gael i blant chwarae wedi ei gyfyngu, sydd wedi arwain at weld rhai plant yn profi tloedi cyfleoedd chwarae. Mae hyn wedi ei gydnabod ym Mholisi Chwarae Llywodraeth Cymru (2002):

*'bod effaith cymdeithas fodern ar fywydau plant wedi cyfyngu ar eu cyfle i chwarae'n rhydd yn sylweddol, a'i bod wedi esgor ar ddiffyg cyfleoedd chwarae yn yr amgylchedd cyffredinol.'*

Mae Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd allweddol chwarae i les pob plentyn, ac i gymdeithas yn gyffredinol:

*‘Mae chwarae mor hanfodol bwysig i bob plentyn wrth iddo ddatblygu ei sgiliau corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol a chreadigol fel y dylai cymdeithas achub ar bob cyfle i’w gefnogi a chreu amgylchedd sy’n ei feithrin. Dylai’r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth ystyried effaith y penderfyniadau hyn ar y cyfleoedd a gaiff plant i chwarae.’*

Daethpwyd i’r penderfyniad i gynnal yr ymgyrch Atgofion Chwarae o ganlyniad i bryder Cyngor Sir y Fflint bod y gostyngiad yng nghyfleoedd plant i chwarae’n cael effaith ar les corfforol a meddyliol plant. Teimlwyd y byddai casglu tystiolaeth fanwl am natur newidiol gallu plant i chwarae’n rhydd, yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn meddu ar ddealltwriaeth ddyfnach o’r rhwystrau sy’n cyfyngu ar hynny o amser a lle sydd ar gael i blant chwarae.





## Trosolwg o'r ymgyrch Atgofion Chwarae

Clustnododd Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Sir y Fflint ddeg cwestiwn i'w gofyn i drigolion. Cynlluniwyd y cwestiynau i alluogi'r rhai fyddai'n ymateb i feddwl yn ddwys am natur eu profiadau chwarae'n eu plentynod. Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd:

1. Pryd fydddech chi'n chwarae? (er enghraifft, amserau, dyddiau, cyfnodau o'r flwyddyn)
2. Disgrifiwch y gymuned y tyfoch i fyny ynddi a'r mannau y bydddech yn chwarae ynddynt
3. Pa fathau o bethau fydddech chi'n eu gwneud tra'n chwarae?
4. Gyda phwy fydddech chi'n chwarae?
5. Sut ydych chi'n teimlo'n awr pan fyddwch chi'n cofio chwarae?
6. Beth ydych chi'n credu wnaeth chwarae i chi?
7. Allwch chi ddweud wrthym os y gwnaethoch frifo eich hun o gwbl tra'n chwarae?
8. Allwch chi ddweud wrthym os y cawsoch eich gofidio (*upset*) o gwbl tra'n chwarae?
9. Allwch chi ddweud wrthym os y gwnaethoch greu helynt erioed tra'n chwarae?
10. Sut ydych chi'n credu y mae chwarae wedi newid ar gyfer plant sy'n tyfu i fyny heddiw?

Bu nifer o grwpiau'n ddigon caredig i helpu gyda dosbarthu'r holiadur mewn amrywiol ffyrdd. Pasiodd rhai o'r grwpiau'r holiaduron i'w aelodau a chynhaliodd eraill grwpiau trafod i archwilio eu atgofion cyn eu cofnodi ar y daflen a ddarparwyd.

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn drosolwg o'r dadansoddiad a'r canfyddiadau ehangach a geir yn yr adroddiad annibynnol, a mwy cynhwysfawr, *Flintshire Play Memories 1910-2014: Evaluation Report*, a gynhaliwyd gan Chwarae Cymru ar ddechrau 2015. Mae'r adroddiad ar gael ar: **[www.siryfflint.gov.uk/acic](http://www.siryfflint.gov.uk/acic)**

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig trosolwg o'r ymatebion a gyflwynwyd gan drigolion Sir y Fflint a rannodd eu atgofion personol o chwarae pan oeddent yn blant. Mae hefyd yn tynnu sylw at amrywiol dueddiadau a gododd o'r wybodaeth a gasglwyd, yn ogystal â nifer o sylwadau ac argymhellion fydd yn hysbysu'r modd y caiff hawl plant i chwarae ei gefnogi ar draws y sir yn y dyfodol.



## Adran 1 – Dadansoddiad o ymatebion i'r cwestiynau

### 1. Pryd fydddech chi'n chwarae? (er enghraifft amserau, dyddiau, cyfnodau o'r flwyddyn)

Mae'n gwbl amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn y bydd plant, waeth pryd y cawsant eu geni, o gael cyfle, yn chwarae bob dydd a thrwy gydol y flwyddyn. Yn syml, o gael amser i ddewis beth y maent am ei wneud, bydd plant yn chwarae.

Rhai o'r ymatebion mwyaf poblogaidd a roddwyd i pryd y byddai plant yn chwarae oedd: bob dydd; trwy'r dydd; trwy'r flwyddyn; gwyliau'r ysgol; yr ysgol; ar y penwythnosau.

Roedd atgofion y cenedlaethau hŷn (rhwng y 1920au a'r 1950au yn arbennig) yn cyfeirio'n helaeth at y ffaith bod hyd y cyfnodau y byddent yn chwarae'n hir iawn. Cyflwynodd yr ymatebwyr nifer o atgofion o gael eu '*taflu*' neu eu '*hel*' allan yn y bore a'u rhybuddio i ddod adref ar amser penodol neu '*pan fydd hi'n tywyllu*', '*pan ddaw lampau'r stryd ymlaen*'.

Nid yw'r math yma o gyfeiriad yn gwbl absennol mewn cenedlaethau diweddarach, ond mae'n ymddangos eu bod yn llai cyffredin o tua'r 1970au ymlaen.

*'Roedd gennym lawer iawn o ryddid ... roedd hi'n adeg y rhyfel ...ond fe fydden ni'n mynd allan ar ein pen ein hunain ond roedden ni'n gwybod i daro adre'n aml ... roedd rhieni'n poeni am faterion pwysicach bryd hynny! ... Rwy'n teimlo nad yw plant heddiw'n cael yr un rhyddid ac y cafon ni. Mae rhaid i oedolion fod yn bresennol trwy'r amser.'*

*'Fe fydden ni'n chwarae o amser brecwast tan amser te.'*

*'Fe fyddai'r mamau'n meddwl bod rhywbeth o'i le arnoch chi pe baech chi'n aros yn y tŷ.'*

*'Roedden ni'n arfer cael ein taflu allan o'r tŷ y peth cynta'n y bore.'*

## 2. Disgrifiwch y gymuned y tyfoch i fyny ynddi a'r mannau y byddech yn chwarae ynddynt

Mae'r mannau y bydd plant yn chwarae ynddynt wedi aros yr un fath hefyd, i ryw raddau. Mewn egwyddor, gall pobman fod yn ofod chwarae i blentyn sydd â natur chwareus. Mae'n ymddangos mai'r prif newid sydd wedi digwydd yw pryder os oes gan blant y caniatâd angenrheidiol i allu chwarae mewn mannau sydd ddim yn cael eu goruchwyllo gan oedolion.

Mae'r ymgyrch yn darparu toreth o dystiolaeth bod plant wastad wedi chwarae mewn mannau sydd heb eu clustnodi'n benodol ar gyfer chwarae, ond tydi hynny heb eu hatal. I ddweud y gwir, yn ôl atgofion rhai o'r trigolion, mae'n ymddangos bod mynd i fannau o'r fath yn rhan o'r atyniad ar gyfer llawer o blant.

*'Ym mhobman, yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd.'*

*'Mewn mannau anghysbell yn aml iawn, ond wnes i erioed deimlo mewn unrhyw berygl.'*

Mae'n ymddangos mai'r hyn sydd wedi newid yw'r swm o ofod hygyrch o fewn y fro gyhoeddus y gall plant ei ddefnyddio'n rhydd ac heb oruchwyliaeth.

Tra'n darllen yr atgofion a gyflwynwyd gan gyfranogwyr ynghylch ble y byddent yn chwarae'n blant, mae amrywiaeth y lleoliadau a nodwyd yn drawiadol. Mae'r rhestr o fannau ble y byddai plant yn chwarae'n unfaith. Mae mannau lleol, y tu allan gan amlaf, yn nodwedd allweddol o ble y mae plant wedi chwarae trwy'r oesoedd.

Mae natur lleol chwarae plant yn amlwg ar draws bron pob ymateb. Hyd yn oed os ydynt wedi cyfeirio at fannau eraill, lleoliadau ger neu o amgylch y cartref teuluol yw'r lleoliad pennaf y mae plant wedi chwarae ynddo trwy gydol eu plentyndod.

*"Doedd gan neb geir felly fe fydden ni'n cerdded i bobman, i fyny i'r brynau cyn belled â Treuddyn ac i lawr at yr afonydd."*

*"Y goeden fawr ar ben y stryd ble yr oedd pawb yn arfer cwrdd."*



### 3. Pa fathau o bethau fydddech chi'n eu gwneud tra'n chwarae?

Gwelwyd mwy o ddyfnder i'r ymatebion i'r cwestiwn hwn nac i unrhyw un o'r cwestiynau eraill. Mae'r pethau yr oedd y plant yn eu gwneud yn llawer rhy niferus i'w rhestru yma, ond, fel y byddem yn disgwyl, cyfeiriwyd yn aml at adeiladu cuddfannau, dringo coed, ymladdfeydd dŵr, siglenni rhaff, creu pethau fel cacennau mwd a phersawr petalau rhosod fel rhan o atgofion pobl.

Roedd cymryd rhan mewn sefyllfaoedd smalio, fel chwarae tŷ bach, Cowbois ac Indians, môr ladron neu ddeinosoriaid yn thema cyson ac mae'n ymddangos eu bod, i ryw raddau, yn adlewyrchu tueddiadau'n y sinema ac ar y teledu ar y pryd.

Roedd addasu'r amgylchedd mewn rhyw fodd yn thema cyson hefyd, fel adeiladu argaeau, palu tyllau ac adeiladu cestyll tywod. Mae'n ymddangos bod cynnwau tanau a chreu maglau'n gyffredin hefyd. Trafodwyd rhyngweithio chwareus â mannau cyhoeddus agored yn aml, er enghraifft peidio â sefyll ar y craciau neu'r gwaith haearn ar y pafin, llam chwarae dros bolion neu gerdded ar hyd waliau. Mae'n ymddangos bod gemau fel Chwarae Cuddio, Tag / Tic, British Bulldog, Chwarae Sgots, Kerby a Sgipio yn dal i fod yn boblogaidd.

Roedd y newid pennaf yn yr hyn y bydd plant yn ei wneud tra'n chwarae'n ymwneud â'r defnydd cynyddol o gyfrifiaduron ac 'amser o flaen sgrîn' mewn cymdeithas fodern. Siaradwyd am hyn, ar y cyfan, fel mater negyddol, gyda llawer o'r genhedlaeth hŷn yn benodol

yn teimlo mai hyn oedd yn gyfrifol am ddirywiad yn chwarae awyr agored plant mewn cymdeithas fodern.

O'r atgofion a gyflwynwyd gan y cenedlaethau iau, ac yn groes i'r hyn y mae rhai o'r to hyn wedi ei fynegi'n eu hymatebion, mae'n ymddangos bod plant yn dal i wneud yr un math o bethau ag y maent wedi eu gwneud erioed tra'n chwarae. Byddant yn chwilio am ansicrwydd ac yn chwarae'n eu amgylchedd leol mewn llu o ffyrdd cymhleth a gwahanol. Un peth gaiff ei dystio'n gwbwl eglur yw bod dyfodiad gwahanol dechnolegau wedi ychwanegu ystod arall o sdwff i blant chwarae ag o.

Mae un peth yn sicr - 'dyw cyfrifiaduron, y teledu a doeth-ffonau ddim yn debygol o ddiflannu'n fuan iawn. Y newydd cadarnhaol yw, pan fyddwn yn holi plant beth hoffon nhw ei wneud yn eu hamser sbâr, maent yn dal i bwysleisio eu awydd i chwarae'n eu cymdogaethau, gyda'u ffrindiau.

*'Tydw i ddim yn credu fod gan blant y rhyddid oedd gennym ni. Roedd rhaid inni fod adre cyn iddi dywyllu ond heblaw am hynny, roeddem yn cael ein gadael i wneud fel a fynnom. Heddiw, mae rhaid iddyn nhw fod â ffôn efo nhw ac mae'n ymddangos fel eu bod yn cael eu mygu gan rieni gor-amddiffynnol.'*

*'Mae'n ymddangos bellach fod chwarae'n rhywbeth sy'n digwydd fwy y tu mewn na'r tu allan. Mae'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn treulio llawer o'u amser sbâr yn ymwneud â thechnoleg fodern.'*





#### 4. Gyda phwy fydddech chi'n chwarae?

Mae'r bobl y bydd plant yn dewis chwarae â nhw wedi aros yr un fath dros amser. Bydd plant, yn bennaf, yn chwarae â'u ffrindiau, a phwy bynnag sydd o'u hamgylch. O'r atgofion a gyflwynwyd, mae hyn yn tueddu i olygu brodyr a chwiorydd, cefndryd a chyfnitherod a chymdogion.

Anaml iawn y byddai plant yn cyfeirio at chwarae gydag oedolion fel bod yn rhan o'u hoff atgofion o bobl y byddent yn arfer chwarae â nhw. Roedd rhieni'n gymharol absennol o atgofion chwarae mwyaf cyffredin y rhan fwyaf o bobl. Mae'n ymddangos bod hoff atgofion chwarae'r mwyafrif o blant yn cael eu nodweddu gan absenoldeb oedolion.

Pan roddir cyfle i blant chwarae'n eu cymdogaethau eu hunain, byddant yn cwrdd â ac yn dod i adnabod plant ac oedolion eraill, gan ymgyfarwyddo a chynyddu ymddiriedaeth ac ysbryd cymunedol. Mae hyn yn helpu rheini i ennill hyder i ganiatáu i'w plant chwarae'r tu allan ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn.

Bydd rhoi caniatâd i blant chwarae'r tu allan ger eu cartref a chartrefi eu ffrindiau'n eu helpu i ennill dealltwriaeth o'r byd y maent yn byw ynddo, wrth iddynt ddysgu i ddelio â sefyllfaoedd y tu allan i'r cartref, heb fod yn rhy bell oddi wrth oedolion. Mae hyn yn gam pwysig er mwyn ennill hunandibyniaeth a mwy o annibyniaeth ar gyfer mynd i'r parc, y siop leol neu gerdded i'r ysgol neu i fannau lleol eraill, ar eu pen eu hunain.

## 5. Sut ydych chi'n teimlo'n awr pan fyddwch chi'n cofio chwarae?

Y peth mwyaf trawiadol am yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd y teimladau cadarnhaol cryfion yr oedd yr holl ymatebwyr yn eu cofio. Wnaeth yr un ymatebwr nodi sylwadau negyddol. Yr unig bryd y defnyddiwyd geiriau negyddol oedd wrth ddisgrifio'u teimladau tuag at blant yn tyfu i fyny heddiw, mewn cymdeithas fodern. Er enghraifft:

*'Fe fyddwn i wrth fy modd pe gallwn i smyglo fy wyrion yn ôl i'r cyfnod hwnnw. Roedd bywyd mor syml ac roedd pleser mawr i'w gael dim ond o fod yn fyw. 'Doedd gennym ni ddim arian, dim sdwff "designer", dim ond cyfeillgarwch cadarn a pharhaol ... y cyfnod gorau un, er ei bod yn adeg y rhyfel.'*

*'Rwy'n credu bod plant heddiw wedi colli eu rhyddid ... trist iawn.'*

O safbwynt polisi cyhoeddus, mae hyn yn newydd gwych, gan fod buddiannau iechyd sylweddol o bobl yn teimlo'n hapus ac yn profi mwynhad.





## 6. Beth ydych chi'n credu wnaeth chwarae i chi?

Roedd yr ymatebion i gyd yn pwysleisio'r amrywiol elfennau cadarnhaol y mae chwarae wedi ei sicrhau ar eu cyfer hwy fel bodau dynol; roedd yr ymatebion yn drawiadol o amrywiol. Fu dim newid dros amser yn y modd yr oedd ymatebwyr yn dynodi'r amryw fuddiannau y mae chwarae wedi eu dapraru ar eu cyfer.

Mae amrywiaeth yr atebion a gyflwynwyd gan rai ymatebwyr yn dangos dealltwriaeth rhesymol o werth allweddol chwarae wrth gefnogi lles meddyliol a chorfforol bodau dynol. Yr ateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd oedd am yr effaith cadarnhaol gaiff chwarae ar ddatblygiad sgiliau cymdeithasol a deallusrwydd emosiynol.

## 7. Allwch chi ddweud wrthym os y gwnaethoch frifo eich hun o gwbl tra'n chwarae?

Yr ymateb pennaf a mwyaf cyffredin oedd 'do', roedd bron pob un wnaeth ymateb wedi brifo eu hunain wrth chwarae. Mae'n ymddangos bod yr ymatebion yr un fath waeth pryd y cafodd yr ymatebwyr eu geni.

Ceir llawer o atgofion o fân anafiadau fel cytiau, ergydion, crafiadau, cleisiau, pigiadau danadl poethion, ambell i bwyth a hyd yn oed ambell i asgwrn wedi ei dorri. Mae'n debyg i'r mwyafrif o'r rhain ddigwydd o ganlyniad i ddisgyn oddi ar bethau neu faglu a disgyn.

## 8. Allwch chi ddweud wrthym os y cafoch eich gofidio (*upset*) o gwbl tra'n chwarae?

Yr ymateb mwyaf cyffredin, uwchlaw pob ymateb arall, oedd bod plant wedi cael eu gofidio wrth iddynt chwarae. Trwy edrych ar yr ymatebion ddegawd wrth ddegawd, nid oedd modd canfod unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion a gyflwynwyd gan wahanol grwpiau oedran.

Er i bron pob ymatebwr nodi iddynt gael eu gofidio, roeddent yn dal i fod ag atgofion cadarnhaol parhaol o'u profiadau chwarae.

Er mai ein ysfa gryfaf fel bodau dynol yw i warchod ein plant, mae'n amlwg bod angen mabwysiadu agwedd gytbwys, gan y gall eu gor-amddiffyn amddifadu ein plant o gyfleoedd sy'n allweddol i ddatblygiad. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'diwylliant gwlân cotwm'.

Mewn gwirionedd, allwn ni fyth fwynhau profiadau cadarnhaol yn unig mewn bywyd. Weithiau, bydd profiadau negyddol yn cynnig cyfle inni ddatblygu mecanweithiau ymdopi cwbl angenrheidiol. Mae cael ein gofidio'n sicrhau cyfle inni reoli ein emosiynau sylfaenol ac mae'n ymddangos o'r ymatebion a gyflwynwyd, bod chwarae'n cynnig llawer o gyfleoedd o'r fath.

*'Gwneud ffrindiau. Ffraeo gyda ffrindiau. Gwneud ffrindiau newydd ... 'Dwi'n dal yma ac mae popeth yn iawn. Fe wnaeth fy mharatoi ar gyfer gwirioneddau bywyd!'*





## 9. Allwch chi ddweud wrthym os y gwnaethoch greu helynt erioed tra'n chwarae?

Bydd y mwyafrif o blant yn creu llawer o helynt tra'n chwarae. 'Doedd dim tystiolaeth bod hyn wedi newid o gwbl dros amser. Cyflwynodd yr ymatebwyr hanesion gonest a thrylwyr o'r hyn y buont yn ei wneud dros y degawdau.

*'Ffonio Nain a dweud wrthi ei bod wedi ennill £1,000. Fe goeliodd hi ni!'*

*'Cloi plant yn yr hen ffwrnes, gyda drysau metal tair modfedd o drwch - fe wnaeth pob un ohonom hyn dros y blynyddoedd.'*

*'Neidio o gerbyd i gerbyd ar y trên, a neidio i ffwrdd cyn cyrraedd y bont.'*

*'Curo drws a dianc.'*

*'Dadfachu cerbydau'r trên.'*

*'Clymu caead bin i gynffon y ci.'*

*'Sdwffio carreg i fynw trwyn rhywun.'*

*'Gwylltio'r cymdogion cas.'*

Cafwyd hefyd lawer o gyfeiriadau at nifer sylweddol o ffenestri wedi eu torri, wedi eu hachosi gan amlaf gan beli aeth ar grwydr ac hefyd lawer iawn iawn o ddwyn afalau.

Felly, pwy oedd testun y creu helynt yma? O'r ymatebion a dderbyniwyd, mae'n debyg mai cymdogion y plant oedd y rhain yn bennaf. Gwelir tueddiad hefyd o 'ddial' ar bobl oedd yn grintachlyd neu'n gas tuag atynt. Mae'n ymddangos hefyd bod pobl eraill oedd yn agos at yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o fod yn destun y creu helynt yma – brodyr, chwiorydd, rhieni, cefndryd a chyfnitherod, a hyd yn oed y ci.

Dylid nodi hefyd nad oedd pawb yn codi helynt. Nododd nifer sylweddol o bobl nifer o resymau pam na wnaethon nhw greu helynt, er enghraifft:

*'Na – gormod o bobl yn y pentref yn ein gwyllo.'*

*'Alla' i ddim cofio creu helynt; gormod o ofn fy nhad i fynd i helynt.'*



## 10. Sut ydych chi'n credu y mae chwarae wedi newid ar gyfer plant sy'n tyfu i fyny heddiw?

O'r atgofion a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr, mae'r ateb yn un cymysg. Mae'r broses chwarae ei hun wedi aros yr un fath erioed, ond yr hyn sy'n gwbl amlwg o'r dystiolaeth a ddarparwyd yw, ym marn yr oedolion wnaeth ymateb, eu bod yn teimlo'n gyson bod rhyddid plant i chwarae wedi cael ei erydu fwyfwy dros amser.

Mae'r rhesymau am hyn yn gymhleth ac fe wnaeth yr oedolion a ymatebodd dynnu sylw, nifer o weithiau, at yr angen i wneud rhywbeth i sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n ymddangos bod gan bob cenedlaeth feddwl mawr iawn o'u profiadau chwarae eu hunain, waeth os y cawsant eu geni ym 1910 neu yn 2000. Efallai bod y gemau y mae'r plant yn eu chwarae wedi newid, bod yr amser iddynt chwarae'n anoddach i'w gael ond pan fydd plant yn chwarae, maent yn dal i'w werthfawrogi'n fawr iawn.

Mae diwylliant chwarae'n ddiwylliant plant ac, yn union fel diwylliant o fewn cymdeithas ehangach, nid yw'n statig, mae'n esblygu dros amser. Ydi o'n well, yn waeth neu ond yn wahanol? Mae un peth yn amlwg - dylai'r pwyslais ar lefel polisi fod ar sicrhau bod yr amodau'n iawn i blant ddewis sut y byddant yn chwarae a'r hyn y byddant yn ei wneud pan fyddant yn chwarae.

Mae'n ymddangos bod y modd y mae'r ymatebwyr yn meddwl y mae chwarae wedi newid yn ffocysu ar gyfyngu a'r symudedd annibynnol plant. Cyflwynodd yr ymatebwyr yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ystod eang o resymau, oedd yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag ofn o ryw fath.

*'Tydw i ddim yn credu fod pobl yn teimlo ei bod hi mor ddiogel i chwarae allan yn eu cymuned heddiw. Mae'n ymddangos bod plant yn teithio llawer llai i ffwrdd o'u cartrefi i chwarae. Mae'n ymddangos bod plant a phobl ifanc heddiw yn chwarae gartref yn aml, â gemau technolegol, yn wahanol i 20 – 25 mlynedd yn ôl'.*

## Adran 2: Tueddiadau a nodwyd yn y data

### Ofn pobl ddieithr

Mae'n debyg mai'r ofn pennaf, ymysg yr oedolion a holwyd, oedd ofn pobl ddieithr. Mae tueddiad pryderus ymysg oedolion sy'n credu nad yw hi'n ddiogel i blant chwarae allan yn annibynnol mewn cymdeithas fodern. Mae ofn pobl ddieithr a chael ein cipio wedi cynyddu dros amser. Mae'n ymddangos bod hyn wedi tyfu'n gynyddol gyffredin ers y 1970au ymlaen.

*'Does dim llawer o blant yn chwarae allan fel y bydden ni. Mae llawer mwy o "bobl ryfedd" ar hyd y lle.'*

*'Mae wedi newid yn fawr iawn, mae plant yn cael eu rhybuddio'n erbyn chwarae'r tu allan oherwydd bod oedolion yn prowla'.*

*'Methu mynd allan wedi iddi dywyllu rwan ... gorfod bod yn ofalus oherwydd gwehilion sy'n rheibiol a throëdig.'*

*'Mae rhieni'n poeni y bydd rhywun yn cipio eu plant a gwneud pethau ofnadwy iddyn nhw, felly 'dyw plant ddim yn cael crwydro ac archwilio mor rhydd bellach'.*



Er bod rhieni, yn gwbl gywir, yn pryderu ynghylch diogelwch eu plant y tu allan i'r cartref, nid yw'r niferoedd o blant a gipiwyd, gan oedolion nad ydynt yn eu hadnabod, wedi cynyddu dros y blynyddoedd.

### Diwylliant ofn risg

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn nodi bod oedolion yn bryderus iawn ynghylch cynnydd yr hyn y maent yn ei ystyried fel defnydd gor-frwdfrydig o reolaeth iechyd a diogelwch. Eu dadl hwy yw bod hyn yn lleihau'r rhychwant o fathau chwarae y gall plant gymryd rhan ynddynt.

*'Mwy o faterion iechyd a diogelwch, dim llawer o hwyl bellach.'*

*'Mae llawer mwy o reolaeth bellach ac all plant ddim cymryd risg.'*

*'Obsesiwn llwyr â diogelwch! Mae hyn yn atal creadigedd ac nid yw'n caniatáu ar gyfer archwilio, cydweithio, llunio penderfyniadau ac yn y blaen, sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad yr unigolyn.'*

Yn ddiddorol iawn, ni wnaeth yr un o'r ymatebwyr ddweud eu bod yn pryderu ynghylch perygl anafiadau i blant wrth iddynt chwarae. Mae'n ymddangos bod pawb yn derbyn bod mân anafiadau'n rhan o chwarae a bod lefel o risg yn angenrheidiol i gefnogi datblygiad plant.

### Sefydliadoli plentyndod

Mae plant bellach, yn bennaf oherwydd gyrrwyr economaidd cymdeithas fodern, yn treulio lefel cynyddol o amser mewn sefyllfaoedd strwythuredig dan ofalaeth oedolion proffesiynol a llai o amser yn dewis eu ymddygiad eu hunain.

*'Mae plant mewn gweithgareddau sefydliadol o fore gwyn tan nos – yn yr ysgol, clybiau ar ôl ysgol, ac yn y blaen, yn hytrach na bod yn rhydd y tu allan.'*

*'Mae trefniadau gofal plant yn golygu nad yw plant adref yn aml iawn.'*

*'Tydi plant heddiw ddim yn cael rhyddid i archwilio a chwarae ar eu pen eu hunain. Mae'n ymddangos bod popeth wedi ei strwythuro.'*

Mae'n ymddangos mai'r gor-strwythuro yma a'r sefydliadol o fywydau plant yw'r ffactor unigol pennaf wrth leihau hynny o amser sydd ar gael i blant chwarae.

## Technoleg

O ddadansoddi'r ymatebion, fe wnaeth llawer o ymatebwyr gyfeirio bod gan dechnoleg rôl wrth newid gwedd chwarae plant mewn rhyw fodd. Mae'n ymddangos bod llawer yn ystyried mai technoleg sydd wrth wraidd y broblem.

Ceir gwahanol ysgolion o feddwl am rôl technoleg mewn chwarae plant. Mae'n debygol iawn nad y dechnoleg ei hun, o reidrwydd, yw'r broblem. Yn hytrach, mae'n elfen o fater ehangach mwy cymhleth sy'n ymwneud ag annibyniaeth plant ac os oes gan blant ganiatâd gan eu rhieni i chwarae allan heb oruchwyliaeth, ai peidio.

*'Dyw hon ddim yn ardal sy'n ddigon diogel i adael i blant chwarae'n rhy bell o'r tŷ ac mae gemau cyfrifiadurol a'r teledu'n chwarae rhan bwysicach yn eu bywydau.'*

## Gofodau

Fe wnaeth atgofion yr ymatebwyr, wedi eu coladu, ddynodi tueddiad canfyddedig bod gostyngiad yn y nifer o fannau sydd ar gael i blant chwarae.

Un peth sy'n amlwg o atgofion yr ymatebwyr, yw pwysigrwydd mannau anffurfiol i blant gael mynediad iddynt i chwarae. Pwysleisiwyd hefyd bod gofodau a ddyluniwyd gan oedolion, megis ardaloedd chwarae, yn bwysig i blant hefyd, yn ogystal â darpariaeth chwarae wedi ei staffio. Fodd bynnag, y gofodau a nodwyd ac y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd mannau anffurfiol.

*'Mae mwy o gyfyngiadau ar chwarae'r tu allan a lleihad sylweddol mewn mannau agored ar gyfer chwarae.'*

*'Llai o fannau chwarae mewn trefi.'*

*'Dim digon o le yn gyffredinol.'*

*'Dim llawer o leiniau gwyrddion i fynd i chwarae arnynt.'*



## Pwysau cymdeithasol a materoliaeth

Roedd tueddiad yn rhai o'r atgofion a gyflwynwyd yn ymwneud â'r hyn yr oedd ymatebwyr yn ei ystyried yn gynnydd mewn materoliaeth a phwysau mewn cymdeithas i 'gystadlu â'r Jonesiaid' yr oeddent yn ystyried oedd yn effeithio ar ymddygiadau chwarae plant.

Tra y gall, ac y bydd, plant yn chwarae'n unrhyw le a gyda bron unrhyw beth, mae adnoddau ar gael y gallwn eu darparu all hwyluso ac annog chwarae. 'Does dim rhaid i'r rhain fod yn gostus, i ddweud y gwir rhai o'r adnoddau mwyaf effeithlon ar gyfer chwarae yw 'rhannau rhydd'.

Mae rhannau rhydd yn unrhyw beth y gellir ei symud, ei newid, ei dynnu'n ddarnau, ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd, a heb unrhyw gyfarwyddiadau penodol. Er enghraifft tywod, dŵr, cregyn, ffabrig, bwcedi, bocsys, rhaffau, teiars, poteli, pren a deunyddiau sgrap o bob math.

*'Pan oedden ni'n ifanc 'doedd dim o'r fath beth â thegan cwbwl angenrheidiol. Heddiw mae mwy o bwysau i gael yr Xbox diweddaraf neu sgwter drud, er enghraifft, sy'n rhoi straen diangen ar blant a'u rhieni i gystadlu â phobl eraill.'*

*'Mae plant yn meddwl gormod o lawer fel oedolion heddiw. Mae nhw'n poeni mwy am yr hyn sydd ganddyn nhw yn hytrach na'r hyn y gallan nhw ei wneud.'*

*'Mae gan blant heddiw gemau soffistigedig neu ddrud, mae rhaid cael y diweddaraf neu 'dwyt ti'n neb.'*

## Traffig

Mae lefel traffig ar y ffyrdd, a pheryglon ceir yn gyffredinol, wedi bod yn dueddiad amlwg yn yr ymatebion.

Mae mwy o geir ar y ffordd nac erioed o'r blaen ac maent yn peri gwir berygl, i blant yn arbennig.

*'Mae'r traffig wedi cynyddu, mae'n anoddach i gerdded trwy'r dref.'*

*'Llawer mwy o draffig ar y ffyrdd. Pobl yn pryderu am eu diogelwch.'*

*'Strydoedd ddim yn saff bellach.'*

*'Mae gormod o draffig. Mae cymdeithas wedi newid.'*

*'Mae rhieni'n poeni ynghylch gadael i'w plant fynd allan. Mwy o draffig ar y ffyrdd.'*

*'Llai o amgylcheddau diogel oherwydd lefelau'r traffig.'*



## Sylwadau

Mae atgoffa oedolion, yn syml iawn, am eu profiadau chwarae eu hunain yn ddigon i sbarduno ymateb emosiynol sylweddol. Mae hwn yn offeryn eiriolaeth defnyddiol ac angenrheidiol ar gyfer cefnogi hawl plant i chwarae. Felly mae'r weithred o drosglwyddo'r ymgyrch Atgofion Chwarae yma wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gefnogi chwarae plant.

Mae oedolion yn cydnabod pa mor bwysig oedd chwarae, rhyddid a symudedd annibynnol iddyn nhw wrth iddynt dyfu.

Mae'r mwyafrif o oedolion bellach yn ystyried y byd fel lle sydd ddim yn ddiogel i blant chwarae'n annibynnol ac maent yn anelu i'w 'hamddiffyn' trwy gyfyngu ar eu rhyddid i chwarae heb eu goruchwyllo.

Mae oedolion yn cydnabod, ac yn cael eu tristáu'n aml, nad yw plant mewn cymdeithas gyfoes yn mwynhau'r un rhyddid i chwarae fel y gwnaethant hwy. Yr hyn ddaeth yn gwbl amlwg yw nad yw chwarae plant, fel cyfres unigryw o ymddygiadau, wedi newid fawr ddim dros y blynyddoedd.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n ymddangos fel pe bae wedi newid yn sylweddol yw lefel yr amser, y gofod a'r caniatâd sydd ar gael i blant allu chwarae'n rhydd. Golygodd hyn, i rai plant, bod eu cyfleoedd i chwarae wedi eu cyfyngu'n sylweddol ac y bydd hyn, yn anochel, yn effeithio ar eu lles meddyliol a chorfforol.

Mae rhai o'r rhesymau sydd wedi cwtogi rhyddid plant yn rhai real iawn, ond mae rhai eraill yn ymddangos fel pe baent wedi eu seilio ar gam-ganfyddiadau sy'n ddigon cyffredin ymysg y boblogaeth yn gyffredinol.

Mae'r ymgyrch Atgofion Chwarae wedi arddangos y cafwyd cyfnod pryd yr oedd pawb yn derbyn y byddai plant, unwaith eu bod yn ddigon hen a digon hyderus i ymdrin â'r byd mawr y tu allan yn annibynnol, neu gyda'u ffrindiau neu gyda'u brodyr a'u chwiorydd, yn chwarae'r tu allan gan grwydro'n rhydd o fewn eu cymdogaeth eu hunain.

Mae chwarae'n cyfrannu at les a gwytnwch bodau dynol – yn arbennig rhai ifanc. Mae bod â mannau croesawgar, digon o amser a chwmni eraill i chwarae â hwy bob dydd, o bwys mawr i bob plentyn a pherson ifanc – mae angen i ni, fel oedolion, feithrin amgylcheddau sy'n cefnogi hyn.

## Cynghorion ar gyfer cefnogi plant i chwarae allan yn hyderus

Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i gefnogi a pharatoi ein plant i chwarae allan yn hyderus yn eu cymuned. Mae chwarae allan o fudd i blant, yn ogystal â'u rhieni, eu gofawyr a'r gymuned ehangach. Mae cefnogi plant i chwarae allan yn eu cymuned yn cyfrannu at greu cymuned chwarae-gyfeillgar a chydlynol. Efallai y bydd y cynghorion yma'n ddefnyddiol er mwyn annog rhieni a gofawyr a chymunedau lleol i gefnogi plant i chwarae allan yn hyderus:

### 1. Paratoi plant i fod yn ddiogel ar y stryd

Mae strydoedd yn rhan sylweddol o ofod cyhoeddus mewn cymunedau. Gallwn baratoi plant o oedran ifanc trwy ddweud wrthynt a dangos iddynt sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar ac o amgylch y strydoedd.

### 2. Ystyried ein harferion gyrru personol

Yn aml bydd rhieni'n pryderu am draffig cyn caniatáu i blant chwarae allan. Fel gyrwyr, gallwn yrru ar gyflymder diogel yn yr un modd y byddem yn dymuno i eraill yrru ar y strydoedd preswyl ble y bydd ein plant ninnau'n chwarae.

### 3. Helpu plant i ddod i adnabod eu cymdogaeth

Pe byddem ninnau'n dibynnu llai ar deithio yn y car yn ein cymunedau lleol, byddai plant yn dod i adnabod eu strydoedd lleol.





Gallai cerdded i ac adref o gyfleusterau lleol, fel y siop, yr ysgol a'r parc, ein helpu i ddynodi ffyrdd, gyda'n plant, i'w cadw'n ddiogel.

#### **4. Bod yn gymunedol-gyfeillgar**

Gallwn ddod i adnabod pobl leol, cymdogion a theuluoedd eraill, a chytuno gyda'n gilydd i gadw llygad ar y plant i gyd. Bydd hyn yn meithrin ymdeimlad o gymuned ddiogel, fydd yn caniatáu i fwy o blant chwarae allan yn amlach, ac i fod yn fwy diogel yn gwneud hynny.

#### **5. Ymddiried yn y plant**

Gallwn gytuno gyda'n plant i ble ac am ba hyd y gallant fynd allan i chwarae. Os ydynt yn adnabod eu hardal leol, eu cyfeiriad a'u rhif ffôn, pwy y gallant alw arnynt, a sut i ddweud yr amser, bydd yn helpu wrth wneud y trefniadau hyn.

#### **6. Bod yn realistig**

Bydd cadw ein pryderon mewn persbectif a gwybod am gymdogion a thrigolion lleol y gallwn alw arnynt os oes gennych unrhyw bryderon o gymorth. Mae buddiannau chwarae'r tu allan yn llawer mwy nag unrhyw risg.

#### **7. Sicrhau newid**

Gallwn ymuno â phobl leol eraill i ymgychu dros newidiadau i'n cymdogaeth allai wneud ein hardaloedd lleol yn fannau ble y gall plant chwarae allan yn hyderus. Gallwn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae allan trwy siarad â phobl eraill yn ein cymdogaeth neu trwy gynnal digwyddiadau cymunedol a gadael i eraill wybod amdanynt.

## Amser, gofod a chaniatâd i chwarae

Mae cael mynediad i amser a lle i bob plentyn gyflawni ei hawl i chwarae'n hanfodol i les plant ac, o'r herwydd, i gymdeithas yn gyffredinol. Fel y cyfeiriodd David Lloyd George yn ei araith agoriadol i gymdeithas y National Playing Fields Association (NPFA) ym 1925:

*'Allwn ni ddim tresmasu ar yr hawl hwnnw heb wneud niwed parhaol i feddyliau a chyrff ein dinasyddion.'*

Yr ydym, bob un ohonom, wedi tresmasu rywfodd ar yr hawl hwnnw mewn amrywiol ffyrdd cymhleth a rhyngberthynol. Yr her i ni yn awr yw bod rhaid inni sicrhau y gall pob plentyn gael at ei hawl sylfaenol i chwarae a gwyrdroi'r tueddiadau negyddol sydd wedi codi o'r atgofion real a llawn emosiwn a gyflwynwyd inni gan feddyliau a chalonnau ein cymuned yma yn Sir y Fflint.

Am fwy o wybodaeth ar sut y gallwch chwarae eich rhan a chefnogi plant i chwarae, ymwelwch â:

[www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Leisure-Services/Childrens-Play.aspx](http://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Leisure-Services/Childrens-Play.aspx)

[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)



